**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**10fed o Fai 2010**

**Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw gwneud yr aelodau'n ymwybodol o bapur manylach sydd wrthi'n cael ei lunio i grynhoi hynt Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl hyd yn hyn.

## Cefndir

2 Agorwyd Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn Awst 2008. Dyma oedd y gyntaf o'r fath yng Nghymru, ac roedd yn adeiladu ar gysyniadau llai datblygiedig oedd yn bodoli yn Lloegr.

3 Y syniad gwreiddiol ar gyfer yr Orsaf Dân Gymunedol oedd trawsnewid gorsaf dân weithredol draddodiadol yn orsaf ragweithiol wedi ei hanelu at y gymuned, ac a oedd yn canolbwyntio ar ennyn diddordeb y gymuned. Ei diben oedd bod lle canolog ar gyfer trigolion yr ardal, ac addysgu ac rhoi hwb i atal tanau a damweiniau eraill, yn ogystal ag ymateb i ddigwyddiadau.

## Gwybodaeth

4 Y trefniadau sydd yn eu lle ,o ran llywodraethiant, yw bod y gwaith o redeg y cyfleuster cymunedol hwn yn cael ei reoli gan Reolwr yr Orsaf Dân Gymunedol. Caiff y cynnydd ei oruchwylio gan dîm rheoli sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r tîm hwn yn cynnwys Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub, yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân, Rheolwr Diogelwch Tân Cymunedol, Rheolwr Cyllid, a'r Dirprwy Reolwr Cyfathrebu Corfforaethol.

5 Yn ogystal â'r gwaith craffu hwn, penderfynwyd mai priodol o beth fyddai, ar yr adeg hon yn natblygiad yr orsaf gymunedol, i adroddiad cynnydd llawn gael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol.

6 Mae Rheolwr yr Orsaf Dân Gymunedol wrthi'n llunio'r adroddiad hwn. Rhagwelir y bydd yn ymdrin â :

- Threfniadau partneriaethol
- Ennyn diddordeb y gymuned
- Cyfraddau llenwi
- Cynhyrchu incwm

**Argymhellion**

7 Bod yr Aelodau'n:

(i) nodi'r bwriad i gyflwyno'r adroddiad cynnydd i'r cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol;

(ii) dynodi pa wybodaeth ychwanegol y byddent yn dymuno ei ymgorffori yn yr adroddiad hwnnw**.**